

Dechrau wrth fy nhraed

Yn ôl adroddiad gan Estyn (2018), mae gan fy ysgol pontio, sef Ysgol X 482 o ddisgyblion rhwng 2 ac 11 oed, gyda 70 o blant yn mynychu â’r meithrin yn rhan amser. Cymraeg ydi prif iaith yr ysgol er dim ond 10% o’r disgyblion sydd yn dod o deuluoedd sy’n siarad yr iaith felly mae defnydd yr iaith yn cael ei annog trwy gydol yr ysgol gyfan. O’r adroddiad, gwelwn fod tua 7% o ddisgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn derbyn prydau ysgol am ddim sydd yn is i gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol sef 18% (Estyn, 2018).

Mae gan yr ysgol presenoldeb cryf a clir iawn, gyda’r ffigur o 95.2% yn arddangos yn y flwyddyn o 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019). Gan fod y ffigur yma mor uchel, mae’r ysgol yn gweithio’n galed iawn i rannu gwybodaeth o ddiwrnodau’r plant yn yr ysgol gyda’r rhieni neu ofalwyr, fel arfer byddent yn wneud hon trwy rannu lluniau ar-lein. Mae’r ysgol yn dilyn polisiau a gweithdrefnau (██████████, 2021) i sicrhau diogelwch y plant felly cyn rhannu unrhyw lun o’r plant ar wefannau neu gyfryngau cymdeithasol mae rhaid sicrhau bod y rhieni neu ofalwyr wedi rhoi caniatâd. Drwy rannu’r lluniau yma, mae’r rhieni neu ofalwyr yn gallu dod i ddeall beth mae eu plentyn wedi gwneud yn yr ysgol ac yna yn gallu gofyn cwestiynau ynglŷn â’i ddiwrnod i’r plant neu’r athrawon am fwy o wybodaeth. Yn ogystal â bod ar gyfryngau cymdeithasol, mae ysgol X yn cael CRACH i rieni a gofalwyr, mae hyn yn dangos parodrwydd y rhieni a gofalwyr i helpu’r ysgol, gan hefyd sicrhau llais y teuluoedd mewn addysg eu plant. Mae hyn yn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng yr ysgol a’r gymuned. Mae CRACH yn trefnu ffair haf a gaeaf yr ysgol, gan fynd ati i godi arian i helpu'r ysgol i brynu offer newydd i uwch lefelu profiadau’r plant yn yr ysgol. Mae’r pennaeth ac un athro arall yn ymuno â’r pwyllgor yma i roi adborth o’r ysgol i’r pwyllgor er mwyn sicrhau dealltwriaeth lwyr o beth sydd yn digwydd o fewn yr ysgol er mwyn allu cynllunio’n briodol.

Mae’r ysgol yn hynod o lwcus i allu croesawi aelodau o’r gymuned i’r ysgol yn aml iawn, gan gynnwys ymweliadau gan y gwasanaeth tân, yr heddlu, parafeddyg a llawer mwy. Mae’r ysgol hefyd yn ffodus i allu croesawi rieni a gofalwyr y disgyblion mewn i’r ysgol er mwyn cyfoethogi’r dysgu. Mae’r ysgol wrth ei bodd yn gwahodd rhieni mewn i wneud sesiynau gyda’r plant ynglŷn â phroffesiwn y rhiant/gofalwr. Mae’r ysgol yn trio defnyddio rhiant/gofalwr gyda phroffesiwn sy’n cyd-fynd â themâu'r tymor fel bod y plant yn gallu cael budd a gweld sut mae themâu'r tymor yn disgyn mewn i’r byd go iawn. Trwy groesawi’r gymuned i’r ysgol fel hyn, gwelwn fwy o barodrwydd o’r gymuned i helpu’r ysgol ond hefyd mwy o ddealltwriaeth gan y disgyblion am y gwasanaethau gwahanol sy’n mynychu’r ysgol. Mae Ysgol X yn cynnal gwersi Cymraeg i rieni a gofalwyr yn y nos fel eu bod nhw yn gallu mynd ar y daith iaith gyda'u plentyn. Trwy gynnal y sesiynau yma, mae pawb yn derbyn budd trwy ddysgu ac yn cael hwyl fel teulu tra hefyd rhoi’r ysgol yng nghanol y gymuned. Mae hyn hefyd yn dilyn targed cenedlaethol Cymru o gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae’r ysgol hefyd yn dilyn polisi drws agored a gwelwn hyn yn cael ei ailadrodd trwy gydol yr ysgol gyfan fel bod pob disgybl a rhiant/gofalwr yn gwybod bod yna wastad groeso i’r ysgol i gael sgwrs gyda’r pennaeth. Mae hyn yn ofnadwy o effeithiol gan ei bod yn dangos parodrwydd yr ysgol i helpu rhieni a gofalwyr sydd yn cael unrhyw broblem neu bryder ynglŷn â'u plentyn. Mae hyn yn gallu stopio problem fach rhag tyfu ac felly datrys y broblem yn ei unfan.

Mae gan ysgol X cysylltiad gyda theuluoedd gyda’r defnyddio o wefannau fel hwb i’r ffordd draddodiadol o ddefnyddio llyfr cyswllt. Mae hwn yn cael ei ddangos adref ag yn yr ysgol, gan roi’r cyfle i unrhyw ochr o’r cysylltiad rhannu eu pryderon a chadw cysylltiad. Mae’r ysgol hefyd yn dosbarthu papur tymhorol er mwyn dangos beth sydd cael ei wneud dros y tymor ar draws yr ysgol gyfan. Yn ogystal â’r papur newydd yma, mae yna hefyd cylchlythyr wythnosol sy’n cael eu rhannu gan y llywodraethwyr.

Cyfeirnodau

Estyn (2018), [REDACTED], cyrchwyd ar 28/05/23 [REDACTED]

Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg*, cyrchwyd ar 28/05/23

https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg?_gl=1*ukayan*_ga*MTAxMDU4NzA3Ni4xNjczMjY5Mjkx*_ga_L1471V4N02*MTY4NTQ0MTI3OS4xMi4wLjE2ODU0NDEyNzkuMC4wLjA.&_ga=2.143420085.1246915462.1685400125-1010587076.1673269291

Llywodraeth Cymru (2019), [REDACTED], cyrchwyd ar 28/05/23

[REDACTED] (2021), *Polisiau*, cyrchwyd ar 28/05/23 [REDACTED]